


YSGOLION YR 21AIN GANRIF



ATODIAD A - ASESIAID O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymgyngoriad yma ar gael ar y dudalen 'Cymryd Rhan' ar wefan y Cyngor.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yma'n galluogi'r Cyngor i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i sicrhau cydymffurfiad â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod pob un yn cynnwys gwybodaeth a themâu trawsbynciol.

CAM 1 - Casglu Gwybodaeth

NODWCH: Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, rydyn ni'n gofyn i chi gynnig **tystiolaeth i gefnogi'ch barn**. Gweler y ddogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data.

Enw'r Cynnig	Cynnig i symud Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG Llyn y Forwyn) i adeilad newydd sbon ar safle newydd.
Cyfadran / Adran	Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant - Carfan Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif
Cyfarwyddwr Gwasanaeth	Andrea Richards
Swyddog Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	Lisa Howell
E-bost	Lisa.J.Howell@rctcbc.gov.uk
Rhif Ffôn	01443 744000
Disgrifiad Cryno	<p>Yn gryno, y cynnig yw cynnal addasiad rheoledig i Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn (YGG Llyn y Forwyn), trwy symud yr ysgol i adeilad newydd sbon ar safle newydd. Y cynnig yw codi adeilad newydd yr ysgol ar ochr ogleddol Crib-y-Ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, sy'n cael ei adnabod yn lleol fel lleoliad hen 'Ffatri Chubb'. Y cynnig yw gwneud y newid rheoledig yma erbyn Mawrth 2024. Bydd y cynnig yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.• Ardaloedd yn yr adeilad a manau awyr agored i'w defnyddio gan y gymuned leol.• Capasiti a lle ychwanegol ar gyfer ymyriadau anghenion dysgu ychwanegol.• Gwell lleoedd awyr agored i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm, gan gynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac ardal 'ysgolion coedwig'.• Dulliau rheoli traffig gwell, gan gynnwys man gollwng i ddisgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff. <p>Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys adolygu llwybrau diogel i'r ysgol, a buddsoddiad mewn gwelliannau i lwybrau cerdded, croesfannau a mesurau tawelu traffig os bydd angen, er mwyn sicrhau bod y safonau diogelwch gofynnol yn cael eu bodloni. Dyma rydyn ni wedi'i wneud mewn cymunedau eraill trwy gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, gan wneud gwelliannau sylweddol.</p>

	<p>Er mwyn cyflawni'r cynigion yma, mae'r Cyngor yn ceisio symud YGG Llyn y Forwyn i adeilad newydd ar safle ysgol newydd. Wrth wneud hynny, fydd dalgylch YGG Llyn y Forwyn ddim yn newid.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>Bydd Cylch Meithrin newydd hefyd yn rhan o safle newydd yr ysgol a bydd yn cynnig sesiynau Cylch Meithrin cyn-ysgol ar gyfer plant 2 i 3 oed. Mae'r ddarpariaeth yma eisoes yn gweithredu ar safle presennol yr ysgol. Serch hynny, gan fod y lle sydd ar gael yn gyfyngedig, mae'r niferoedd yn gymharol isel. Rydyn ni'n rhagweld y bydd gallu cynnig y ddarpariaeth yma mewn cyfleuster newydd sbon yn rhan o safle YGG Llyn y Forwyn yn annog nifer y disgyblion i gynyddu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr iaith yn ddi-dor o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant rhwng 2 ac 11 oed ar un safle ysgol gynradd.</p>
<p>A yw'n bolisi/prosiect a allai effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth neu sut mae gwasanaethau neu swyddogaethau'n cael eu cyflawni?</p>	<p>Ydy.</p>
<p>Beth yw nodau'r polisi/prosiect, a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Gymraeg?</p>	<p>Nod y prosiect arfaethedig yw adeiladu ysgol newydd sbon ar safle newydd yn lle'r ysgol bresennol yn YGG Llyn y Forwyn, sy'n un o'r adeiladau yn y cyflwr gwaethaf ym mhorthfolio addysg y Cyngor.</p>
<p>Pwy fydd yn elwa? A allai'r polisi/prosiect effeithio ar grwpiau Cymraeg?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mudiad Meithrin. • Cylch Meithrin Lleol sy'n cael ei gynnal yn YGG Llyn y Forwyn ar hyn o bryd. • Disgyblion YGG Llyn y Forwyn. • Rhieni/Gwarcheidwaid disgyblion YGG Llyn y Forwyn. • Staff Dysgu a Staff Cymorth YGG Llyn y Forwyn. • Cymuned leol yng Nghwm Rhondda Fach yn y Fwrdeistref Sirol.
<p>Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) daearyddol dan sylw</p>	<p>Bob deng mlynedd mae'r genedl yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad - cyfrif o'r holl bobl ac aelwydydd. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell wybodaeth allweddol am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.</p> <p>Dangosodd Cyfrifiad 2011¹ bod 12.3% (27,779) o'r 225,555 o drigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gallu siarad Cymraeg, ac nad oedd yr 87.6% (197,776) arall yn gallu siarad Cymraeg. Mae modd cymharu hyn â'r holl ffigurau yng Nghymru a ddangosodd o'r 2,955,841 o drigolion sy'n byw yng Nghymru, roedd 19.0% (562,016) yn gallu siarad Cymraeg, ac nad oedd yr 81.0% (2,393,825) arall yn gallu siarad Cymraeg.</p> <p>Wrth edrych ar yr adrannau etholiadol yn nalgylch YGG Llyn y Forwyn - Glynrhedynog, y Maerdy a Tylorstown, 11.8%, 9.7% a 10.1%, yn y drefn honno, yw canran y trigolion sy'n gallu siarad Cymraeg.</p>

¹ [Cyfrifiad 2011](#)

Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ochr yn ochr â'r adrannau etholiadol uchod sy'n rhan o ddalgyrch YGG Llyn y Forwyn, yn ôl Cyfrifiad 2011.

Sgiliau Cymraeg y trigolion - (%)					
	Glynrhedynog	Y Maerdy	Tylorstown	Cyfanswm y Trigolion sy'n Byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cymru Gyfan
Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	7.9%	7.9%	9.7%	9.3%	14.6%
Yn gallu siarad a darllen Cymraeg ond yn methu â'i hysgrifennu	0.6%	0.6%	0.9%	0.8%	1.5%
Yn gallu siarad Cymraeg ond yn methu â'i darllen na'i hysgrifennu	1.2%	1.6%	1.6%	1.7%	2.7%
Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig	3.5%	2.9%	4.2%	3.6%	5.3%
Cyfuniadau Eraill o Sgiliau	3.4%	3.4%	3.3%	4.3%	2.5%
Dim sgiliau	83.5%	83.6%	80.4%	80.3%	73.3%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Mae'r data'n dangos bod sgiliau Cymraeg trigolion pob ardal etholiadol sy'n rhan o ddalgyrch YGG Llyn y Forwyn, yn is na chyfanswm sgiliau Cymraeg y Fwrdeistref Sirol a Chymru gyfan.

Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol² yn casglu gwybodaeth am allu'r bobl sy'n ymateb i siarad Cymraeg a hefyd yn cynnwys cwestiwn ar ba mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg. Mae'n cael ei ddiweddarau bob chwarter, felly mae'n ffynhonnell fwy diweddar na'r Cyfrifiad. Nododd yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol

² [Arolwg Poblogaeth Blynyddol](#)

diweddaraf, ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Medi 2020, fod 19.3% o'r bobl wnaeth ymateb sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. 28.8% o bobl wnaeth ymateb yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg dros Gymru gyfan. Mae modd dadansoddi hyn ymhellach gyda'r data yn y tabl isod.

Sgiliau Iaith Gymreig y Trigolion - (%)		
	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cymru
Yn gallu darllen Cymraeg	18.2%	25.8%
Yn gallu ysgrifennu'n Gymraeg	16.7%	23.5%
Deall Cymraeg ar lafar	23.5%	33.0%

Mae'r data'n dangos bod canrannau Cymru gyfan yn sylweddol uwch na chanrannau'r Fwrdeistref Sirol yng nghyd-destun pob un o'r sgiliau iaith. Fodd bynnag, mae'n dangos cynnydd sylweddol yn nifer y trigolion sy'n gallu darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011.

Pan ofynnwyd iddyn nhw am ba mor aml y maen nhw'n siarad Cymraeg, mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion gan rai sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o'u cymharu ag ymatebion Cymru gyfan.

Sgiliau Cymraeg y Trigolion - (%)		
	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cymru
Siarad Cymraeg bob dydd	6.9%	16.2%
Siarad Cymraeg bob wythnos	5.0%	4.8%
Defnyddio'r Gymraeg yn llai aml	5.7%	6.2%

Mae'r data'n dangos bod canran y rhai wnaeth ymateb sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn y Fwrdeistref Sirol yn llawer is na chanran Cymru gyfan.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith Cymraeg³ rhwng 2013 i 2015 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ruglder siaradwyr Cymraeg a'u defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o leoliadau. Wrth edrych ar le dysgodd y rhai sy'n byw yng Nghymru i siarad Cymraeg, dysgodd y mwyafrif, 45.0%, siarad Cymraeg gartref, ac yna dysgodd 26.0% i siarad Cymraeg yn yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd rhwng 2 a 10 oed a dysgodd 14.0% i siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd yn 11 oed a hŷn. Dysgodd y 2.0% arall i siarad Cymraeg mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys ar gyrsiau 'Cymraeg i Oedolion'.

Bydd yr adeilad ysgol newydd arfaethedig ar gyfer YGG Llyn y Forwyn yn caniatáu i'r gymuned a sefydliadau trydydd parti eraill i wneud rhagor o ddefnydd o gyfleusterau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi'i chynllunio i fod yn ysgol gwbl hygyrch sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn yn y gymuned. Bydd ardal bwrpasol yn cael ei chreu

³ [Arolwg Defnydd Iaith Cymraeg 2013 i 2015](#)

	<p>yn yr ysgol ei hun er mwyn i'r gymuned leol allu defnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol.</p> <p>Mae'r data uchod yn dangos yn glir bod bwlch yn sgiliau Cymraeg trigolion RhCT o'i gymharu â Chymru gyfan. Mae cynigion fel y cynnig yma yn ymateb i hyn, a gobeithiwn gynyddu'r niferoedd trwy fuddsoddi yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg i gynyddu'r llefydd cyfrwng Cymraeg a gwella'r amgylchedd dysgu a'r cyfleoedd sydd ar gael i'n disgyblion.</p> <p>Bydd Pennaeth YGG Llyn y Forwyn yn cael anogaeth a chymorth i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad drwy gyfrwng y Gymraeg trwy gynnig cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymru yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg cyfredol y Cyngor (2017 i 2022) a'r cynllun strategol newydd (2022 i 2032).</p>
<p>Data neu ymchwil berthnasol arall</p>	<p>Ymgwymerwyd â'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yma'n unol â'r canllawiau sydd wedi'u nodi yn Atodiad C - Effaith ar y Gymuned ac Asesiadau o'r Effaith Cyfrwng Cymraeg y Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod) - Cod Statudol: Rhif y Ddogfen: 011/2018 - Tachwedd 2018⁴, ac fe gafodd ei gynnal yn rhan o ymgynghoriad ynghylch trefniadaeth yr ysgol. Mae'r Ddogfen Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor.</p> <p>Daw'r penawdau penodol sy'n cael eu trafod isod o Atodiad C y Cod, sy'n nodi pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y ddogfen yma.</p> <p>Beth yw categori iaith yr ysgol</p> <p>Mae YGG Llyn Y Forwyn yn ysgol cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Beth yw categori iaith a safonau unrhyw ysgolion eraill?</p> <p>Mae un deg saith o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau mynediad i bawb. Mae dwy ysgol pob oed ar gyfer plant 3 i 19 oed, tair ysgol gynradd dwy iaith ar gyfer plant 3 i 11 oed a 12 ysgol gynradd ar gyfer plant 3 i 11 oed. Mae pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion yma'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Yr ysgol gynradd Gymraeg agosaf at YGG Llyn y Forwyn yw Ysgol Gynradd Gymraeg Bodringallt sydd oddeutu 2.8 milltir i ffwrdd.</p> <p>Mae YGG Bodringallt ym mhentref Ystrad yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ysgol yn darparu addysg gynradd Gymraeg i ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Yn ôl PLASC 2020⁵, mae gan YGG Bodringallt canran o 43.6% o lefydd dros ben. Cafodd YGG Bodringallt ei roi yn y categori 'gwelliant sylweddol' yn ystod ei Arolwg Estyn diwethaf ym mis Mehefin 2013. Ers yr arolygiad Estyn yma, ym mis Rhagfyr 2015⁶, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol mewn</p>

⁴ Cod Trefniadaeth Ysgolion - Cod Statudol: Rhif y Ddogfen: 010/2017 – Mehefin 2017

⁵ PLASC – 2020

⁶ Adroddiad Monitro Dilydol Estyn ar gyfer YGG Bodringallt

perthynas â'r argymhellion, felly o ganlyniad, tynnodd Estyn yr ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion yr oedd angen 'gwelliant sylweddol'.

O ran ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n agos at YGG Llyn y Forwyn, mae Ysgol Gynradd Parc y Darren wedi'i lleoli yn yr un pentref yng Nglynrhedynog, tua 1.1 milltir i ffwrdd. Mae'r ysgol yn darparu addysg gynradd cyfrwng Saesneg i ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Yn ôl PLASC 2020, mae gan Ysgol Gynradd Parc y Darren canran o 16.1% o lefydd ychwanegol. Roedd Arolygiad Estyn diwethaf Ysgol Gynradd Parc y Darren ym mis Medi 2017⁷, ac fe wnaeth yr ysgol yn 'dda' ymhob un o'r pum maes arolygu.

A fydd y cynnig yn darparu gweithgareddau ar ôl ysgol ac yn cynnwys cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg?

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cynnig ystod o glybiau ar ôl ysgol yn ystod yr wythnos gan gynnwys clybiau celf a chreffft, pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi. Yn anffodus, o ganlyniad i faint safle'r ysgol, rhaid i'r clybiau chwaraeon gael eu cynnal oddi ar y safle mewn parc cyfagos. Dyw'r ysgol bresennol ddim yn hygyrch ac nid yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 felly does dim modd cynnig dosbarthiadau Cymraeg ac ati ar gyfer gymuned ddim yn bosibl ar hyn o bryd.

Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch a bydd yr adeilad ei hun a'r safle wedi'i gynllunio i sicrhau bod modd cynnal yr holl weithgareddau ar ôl ysgol ar safle'r ysgol. Bydd yr ysgol yn parhau i gynnig yr holl weithgareddau ar ôl ysgol cyfredol ac maen nhw eisoes wedi mynegi awydd i gynnig rhagor o weithgareddau.

Beth yw'r cyfraddau pontio o Gylchoedd Meithrin i YGG Llyn y Forwyn?

Mae'r sefyllfa bresennol (2019/2020) o ran dilyniant o Gylchoedd Meithrin i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi'i chynnwys yn y tabl isod:

Y Sefyllfa Bresennol (2019/2020) yn Nhermau Dilyniant o Gylch Meithrin i Ysgolion Cynradd cyfrwng Cymraeg		
		Cylch Meithrin
		Glynrhedyn
		Ynys-hir a Wattstown
Llefydd Cylch Meithrin		19
Ysgol Gynradd Gysylltiedig		24
		YGG Llyn y Forwyn
		Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith, Ysgol Gynradd Ynys-hir ac YGG Llyn y Forwyn
Nifer y Plant dwy oed (Oedran ar 31.08.2019)		14
Nifer y plant tair oed (Oedran ar 31.08.2019)		28
Nifer sy'n mynychu Cylch Ti a Fi		0
Nifer sy'n mynychu Dechrau'n Deg		10
		0
	Cyfrwng Cymraeg	Nifer
		%
		12
		92.3%
		12
		44.4%

Cyfanswm sy'n Symud Ysgol	Saesneg	Nifer	1	15
		%	7.7%	55.6%

Fel y gwelir o'r data uchod, mae'r cyfraddau pontio o Gylch Meithrin Glynrhedyn i ysgol gynradd Gymraeg (YGG Llyn y Forwyn) yn uchel iawn. Mae'r cyfraddau pontio o Gylch Meithrin Ynyshir a Wattstown i ysgol gynradd Gymraeg (YGG Llyn Forwyn) yn llawer is. Mae'n bosibl bod hyn o ganlyniad i'r ffaith bod gryn bellter i ffwrdd (tua 7.5 milltir) o YGG Llyn y Forwyn.

Mae Cymraeg 2050 yn nodi mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r ffordd orau o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg a chreu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae Cymraeg 2050 yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel cyflwyniad i addysg cyfrwng Cymraeg ac fel ffordd i gynyddu'r galw am addysg gyfrwng Gymraeg.

Bydd cyllid cyfalaf i ddatblygu lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd, neu ehangu'r ddarpariaeth gyfredol, yn sicrhau bod rhagor o ddewis o ran gofal plant cyfrwng Cymraeg i rieni/gwarcheidwaid. Bydd darpariaethau sydd wedi'u lleoli ar safleoedd ysgolion neu gerllaw, yn darparu cyfnod pontio naturiol o ofal plant i addysg, gan gyfrannu at gontinwmm yr iaith Gymraeg.

Pa gyfleusterau sydd ar gael i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg neu ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg?

Ar hyn o bryd, does gan YGG Llyn y Forwyn ddim ardal bwrpasol yn yr ysgol i aelodau'r gymuned ei defnyddio'n ddiogel yn ystod neu ar ôl y diwrnod ysgol i ddysgu Cymraeg neu ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch a bydd ganddi ystafell bwrpasol i'r gymuned ar safle'r ysgol a fydd yn gallu cael ei defnyddio'n ddiogel yn ystod y diwrnod ysgol. Bydd yr ysgol yn cael cefnogaeth lawn i alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleuster yma.

A yw'n briodol darparu cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol mewn unrhyw ysgol amgen i sicrhau safonau'r iaith Gymraeg ymhellach?

Oherwydd pandemig Covid-19, mae'r cyfyngiadau ar waith o ran dysgu wyneb yn wyneb wedi cyfyngu'r cyrsiau sydd ar gael i'r gymuned ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae modd dilyn ystod o gyrsiau ar-lein 'Cymraeg i Oedolion' trwy Brifysgol De Cymru.

Fodd bynnag, o ystyried y cyfleusterau modern, hygyrch a fydd ar gael ar safle newydd yr ysgol, bydd ardaloedd pwrpasol i ddarparu unrhyw gyfleusterau ar ôl ysgol y mae eu hangen ar yr ysgol a'r gymuned leol.

Sut y mae modd cefnogi ymgysylltiad rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion ag unrhyw ysgolion amgen ac unrhyw ffordd benodol o wella sgiliau iaith y mae'n ei gynnig?

Mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi datblygu llyfryn Bod yn Ddwyieithog, wedi'i ariannu gan Gronfa Glyndŵr. Cafodd ei gyhoedd am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2016 ac mae'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd. Bwriad y llyfryn yma yw

rhoi gwybodaeth ynglŷn â manteision bod yn ddwyieithog, olrhain llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg ac ateb cwestiynau cyffredin ynghylch dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r llyfryn yn cael ei ddsbarthu trwy Ymwelwyr Iechyd, darpariaeth Dechrau'n Deg, nyrsys meithrin ac yn y gymuned mewn meddygfeydd, llyfrgelloedd, meddygfeydd deintyddol ac ysbysai.

Mae llyfryn 'Dechrau'r Ysgol' y Cyngor ar gael i rieni/gwarcheidwaid ac mae'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â dewis ysgol, cludiant o'r cartref i'r ysgol a rhestr o ysgolion.

Yn ogystal, mae'r swyddog Cymraeg i Blant lleol yn cynnal sesiynau dwyieithog wythnosol ar dylino corff eich baban, ioga gyda'ch baban a rhigymau Cymraeg i rieni/gwarcheidwaid a phlant bach ar draws y Sir, gan weithio ochr yn ochr â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn y negeseuon cadarnhaol cynnar yma yn ystod y cyfnod cyn-geni ac ar ôl geni, a'u bod nhw'n gwybod am y llwybr dwyieithrwydd sydd ar gael i'w plant.

Mae Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor yn gweithio gyda Menter Iaith a'r Urdd i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith pwrpasol i bobl ifainc gan dynnu sylw at werth cael Cymraeg fel sgil. Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid hefyd yn cyflwyno achlysuron a gweithgareddau cymdeithasol i bobl ifainc trwy gyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys cyfleoedd preswyl, eisteddfodau, chwaraeon ac achrediad.

Gwybodaeth ar sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor ac unrhyw gamau y bydd eu hangen yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun.

Cred y Cyngor y dylai pob disgybl gael y cyfleoedd priodol ar gyfer dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i'w galluogi i ddatblygu'r hyder i ddefnyddio'r ddwy iaith yn ystod eu bywydau er mwyn bodloni gofynion yr 21^{ain} Ganrif.

Gan gydnabod pwysigrwydd targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a pha mor ganolog yw'r system addysg yng Nghymru i gyflawni'r weledigaeth, mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd y Cyngor (2022 i 2032) yn nodi gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, er mwyn cynyddu ei gyfraniad i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'n adeiladu ar waith y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg blaenorol (2017 i 2022) ac yn nodi cynllun gweithredu sy'n dangos sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni ein gwledigaeth dros ddeng mlynedd.

Mae gan fwyafrif yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y Fwrdeistref Sirol ddigon o leoedd gwag i ateb y galw am leoedd. Fodd bynnag, mae yna nifer o ysgolion lle mae'r galw bron yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael. O'r herwydd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r materion yma drwy nifer o brosiectau a chynigion. At hynny, mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i gynyddu safon ac argaeledd darpariaeth blyneddol cynnar cyfrwng Cymraeg drwy fuddsoddi'n sylweddol mewn nifer o ddarpariaethau trwy gynlluniau cyllido. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau continwwm iaith o ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg a chynyddu'r galw am addysg gyfrwng Cymraeg.

	<p>Bydd y cynnig yma'n darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg mewn adeilad ysgol sy'n addas ar gyfer y 21^{ain} ganrif, gyda darpariaeth blynnyddoedd cynnar Cymraeg newydd. Does dim angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion yma er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.</p>
<p>Pa grwpiau Cymraeg sy'n berthnasol i'r polisi/prosiect yma? Pwy yw'r prif randdeiliaid?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mudiad Meithrin. • Cylch Meithrin Lleol sy'n rhedeg yn YGG Llyn y Forwyn ar hyn o bryd a Chylchoedd Meithrin cysylltiedig eraill.
<p>A yw'r polisi/prosiect hyrwyddo'r Gymraeg a/neu'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach, neu a allai wneud hynny?</p>	<p>Ydy, mae'r prosiect yma'n hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn cynyddu capasiti gydag oddeutu 13 o leoedd i ddisgyblion yn YGG Llyn y Forwyn. Bydd yn darparu amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif i ddisgyblion er mwyn iddyn nhw ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>

Cam 2 - Aseu Effaith

Yn yr adran yma, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau ac yn dewis cael mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn gwasanaeth israddol o'i gymharu â'r gwasanaeth i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofyniad Mesur y Gymraeg 2011.

A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

	Bydd	Na fydd	Dim effaith/dibwys	Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu ddim effaith o gwbl ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gyda chi i gefnogi'r safbwynt yma?	Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
Defnydd o'r Gymraeg	X			<p>Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn cynyddu capasiti gydag oddeutu 13 o leoedd i ddisgyblion yn YGG Llyn y Forwyn. Bydd yn darparu amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif i ddisgyblion er mwyn iddyn nhw ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Bydd Cylch Meithrin newydd hefyd yn rhan o safle newydd yr ysgol a bydd yn cynnig sesiynau Cylch Meithrin cyn-ysgol ar gyfer plant 2 i 3 oed. Mae'r ddarpariaeth yma eisoes yn gweithredu ar safle presennol yr ysgol. Serch hynny, gan fod y lle sydd ar gael yn gyfyngedig, mae'r niferoedd yn gymharol isel. Rydyn ni'n rhagweld y bydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Nifer y disgyblion yn YGG Llyn y Forwyn. - Niferoedd cyn-ysgol yn y Cylch Meithrin. - Mae'r data uchod yn dangos bod 40% o ddisgyblion yng Nghymru yn dysgu Cymraeg yn ein hysgolion, felly mae buddsoddiad parhaus yn y maes yma'n allweddol i dwf parhaus. 	<ul style="list-style-type: none"> - Mae deunydd marchnata yn cael eu datblygu gan Grŵp Marchnata Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor ar hyn o bryd er mwyn hyrwyddo'r ysgol newydd a Cylch Meithrin.

			<p>gallu cynnig y ddarpariaeth yma mewn cyfleuster newydd sbon yn rhan o safle YGG Llyn y Forwyn yn annog nifer y disgyblion i gynyddu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr iaith yn ddi-dor o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant rhwng 2 ac 11 oed ar un safle ysgol gynradd.</p> <p>Mae 65% o'r disgyblion sy'n mynychu YGG Llyn y Forwyn ar hyn o bryd yn defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol ac o ystyried bod y lleoliad newydd yn y dalgylch presennol, does dim disgwyl i'r canran yma newid, er y bydd rhai plant sy'n defnyddio'r cludiant ar hyn o bryd bellach yn byw o fewn pellter cerdded ac eraill yn byw yn bellach i ffwrdd. Bernir felly bod y cynnig ddim yn effeithio ar hyn.</p>		
Cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith	X		<p>Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn gyfle i wneud rhagor o ddefnydd o gyfleusterau'r ysgol gan y gymuned a thrydydd parti. Mae'r ysgol wedi'i chynllunio er mwyn bod yn ysgol gwbl hygyrch sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn yn y gymuned. Bydd ardal bwrpasol yn cael ei chreu yn yr ysgol ei hun er mwyn i'r gymuned leol</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Bydd darparu ystafell bwrpasol i'r gymuned yn hwyluso rhagor o gyfranogiad gan y gymuned. 	<ul style="list-style-type: none"> - Hyrwyddo bod cyfleusterau'r gymuned ar gael at ddefnydd y gymuned a thrydydd parti.

			<p>allu defnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol. Byddai unrhyw ddefnydd o'r ysgol gan grwpiau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, fel achlysuron wedi'u trefnu gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, yn parhau i gael ei gynnig gan yr ysgol pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt.</p> <p>Bydd asesiad effaith traffig, ynghyd ag archwiliad o'r llwybrau cerdded diogel i'r ysgol, yn cael ei gynnal, a bydd unrhyw welliannau a argymhellir i wella diogelwch disgyblion, staff, a rhieni / gofalwyr sy'n teithio i safle'r ysgol. Mae safle newydd yr ysgol ychydig oddi ar y briffordd ac felly mae'n agos iawn at arhosfan bysiau, sydd ychydig y tu allan i ffin y safle. Mae Stagecoach yn rhedeg dau wasanaeth bws rheolaidd sy'n teithio trwy Gwm Rhondda Fach, a fydd yn mynd heibio i'r ysgol bob 20 munud. O ganlyniad, mae'r safle llawer mwy hygyrch o ran y drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael. Mae hyn yn gwneud safle'r ysgol newydd yn llawer mwy hygyrch i gymuned yr ysgol ac i'r gymuned ehangach.</p>	
--	--	--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

<p>Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg</p>	<p>X</p>			<p>Bydd Pennaeth YGG Llyn y Forwyn yn cael ei anogaeth a chymorth i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad drwy gyfrwng y Gymraeg trwy gynnig cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymru yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg cyfredol y Cyngor (2017 i 2022) a'r cynllun strategol newydd (2022 i 2032).</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd bod disgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg Gymraeg yn ymdrochi'n llwyr mewn awyrgylch cyfrwng Cymraeg, er mwyn annog rhagor o bobl i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Er nad oes gan y Cyngor ddosbarthiadau trochi Cymraeg yn unrhyw un o'n</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Nifer y rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned sy'n mynychu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. - Manteisio ar gefnogaeth cynlluniau trochi Cymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> - Hyrwyddo dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. - Hyrwyddo'r opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno symud o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg.
------------------------------------------------------	----------	--	--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

				<p>hysgolion ar hyn o bryd, mae ysgolion sydd angen cymorth cynlluniau trochi Cymraeg i'w disgyblion yn cael eu hariannu i gefnogi disgyblion i gaffael sgiliau iaith Cymraeg yn ôl yr angen.</p> <p>Mae'r galw am ddsbarthiadau trochi yn rhywbeth y bydd y Cyngor yn ei fonitro a bydd yn ystyried eu datblygu ochr yn ochr â datblygu Band B Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif.</p>		
Rhuglder a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r Gymraeg	X			Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	- Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).
Trosglwyddo'r Gymraeg gartref/o un genhedlaeth i'r llall	X			Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	- Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).
Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle	X			Lle bo modd, bydd YGG Llyn y Forwyn, y Cyngor a'r GACCCyD yn cefnogi staff cymorth ysgolion, gweithwyr cynnal dysgu ysgolion a staff addysgu i gymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau iaith Cymraeg ar wahanol lefelau ac yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus i gefnogi gweithwyr cymorth	Nifer o staff cymorth ysgolion, gweithwyr cynnal dysgu ysgolion a staff addysgu sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau iaith Cymraeg ar wahanol lefelau.	- Annog cyfranogiad mewn cyrsiau sgiliau iaith Cymraeg ar wahanol lefelau.

				dysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn bodloni'r anghenion sydd wedi'u nodi.		
Llif o siaradwyr Cymraeg i ac o gadarnleoedd traddodiadol Cymru.	X			Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	- Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).
Effaith net nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal/neu'n genedlaethol	X			Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	- Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).
Hyrwyddo'r Gymraeg o ddydd i ddydd a hyrwyddo'i statws.	X			Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).	- Gweler uchod (Niferoedd a/neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg).

Cam 3 - Monitro Safonau'r Gymraeg

A yw'r penderfyniad arfaethedig yn cadw at ein cyfrifoldebau statudol o ran Safonau'r Gymraeg yn gyffredinol a Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor?

A allai'r polisi/prosiect/gweithredu arwain at ddiffyg cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg?

A yw'n effeithio ar safonau'r gwasanaeth, e.e. sut mae'r corff yn trefnu contractau, grantiau, gohebiaeth, systemau TG neu sut rydyn ni'n rhyngweithio â'r cyhoedd?	Dd/B
Ym mha ffyrdd y gallai'r polisi/prosiect effeithio'n negyddol ar Safonau Gweithredu, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg o fewn y sefydliad, sgiliau Cymraeg y gweithlu a'r gwasanaeth cyfieithu?	Dd/B
A yw'n annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith?	Ydy.
A oes potensial i'r polisi/prosiect yma hyrwyddo addysg gyfrwng Cymru neu gyfleoedd i astudio trwy gyfrwng Cymraeg?	Oes.

A oes potensial i'r polisi/prosiect yma hyrwyddo statws y Gymraeg neu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith?	Oes.	
A oes potensial i greu cyfleoedd i godi hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu wella eu sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach neu mewn mwy o sefyllfaoedd?	Oes.	
<u>Cam 4 - Cryfhau'r cynnig/prosiect</u>		
<p>Yn wyneb unrhyw gamau lliniaru sydd wedi'u rhestri uchod, pa newidiadau/gweithredoedd ymarferol a allai helpu i leihau neu ddileu unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg?</p> <p>Dylid rhoi sylw arbennig i benderfynu pwy, pryd a ble.</p> <p>Mae modd i effeithiau sy'n gadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Rhaid ystyried yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae modd i'r cynnig/prosiect fod o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg. Rhaid hefyd ystyried a yw'r mesur yn angenrheidiol? A fyddai'n bosibl ateb y galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A oes modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble ddylai'r datblygiad fod?</p>		
Beth rydych chi'n mynd i'w wneud?	Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?
Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid (fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori statudol).	Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ddydd Llun 1 Mawrth 2021 a bydd yn dod i ben am 5pm ddydd Gwener 30 Ebrill 2021. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Mai 2021.	Carfan Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif
Disgyblion YGG Llyn y Forwyn	<p>Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod rhaid cynnwys llais plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol yn natblygiad eu profiad addysgol fel dysgwyr, ac wrth drafod y ddarpariaeth, ei reolaeth a gwelliannau.</p> <p>Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ym mhob mater sy'n effeithio arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed gan roi ystyriaeth ddyledus iddyn nhw yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. O'r herwydd, bydd Carfan</p>	Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif

	Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori yma, a thrwy gydol y broses weithredu os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.	
Sicrhau bod pob darpar riant yn derbyn y llyfrynnau 'Dechrau'r Ysgol' a 'Bod yn Ddwyieithog' i hyrwyddo manteision addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.	Yn parhau. Bydd yn ymdrech gydweithredol barhaus rhwng yr holl randdeiliaid. Bydd cael Cylch Meithrin ar y safle yn meithrin y perthnasoedd yma ac yn caniatáu i blant brofi'r Gymraeg yn iau gan gryfhau'r continwwm iaith.	RhCT/Ysgol/Partneriaid
Monitro'r galw i asesu'r angen am ddsbarth trochi yn ardal Cwm Rhondda Fach.	Bydd hwn yn weithred yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 a bydd yn weithred barhaus i swyddogion.	RhCT